

# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET

DYDD IAU, 25 MEHEFIN 2020

### **Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac L.Jones

### **Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, D.Griffiths, H.Jones, C.Morris, M.Roberts, C.Jones, C.Furlow-Harris, S.Blewett, A.Manchipp, C.Davies a/ac T.Davies

---

### 1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

### 2. **Y GANOLFAN ADFER DEUNYDDIAU AC YNNI, TWYNI CRYMLYN**

Gyda chytundeb y Cadeirydd, symudwyd yr eitem hon o sesiwn breifat i un gyhoeddus (ac eithrio atodiadau B ac C sy'n aros yn eithriedig o dan baragraffau 13, 14 a 15).

### **Penderfyniadau:**

1. Mewn perthynas â'r ymgynghoriadau a gwblhawyd, gadarnhau'r penderfyniad mewn egwyddor blaenorol i newid y Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni (CADY) yn orsaf drosglwyddo a fydd yn gallu ailgylchu rhagor o ddeunydd;

2. Cyflwyno strwythur diwygiedig i'r Pwyllgor Personél mewn perthynas â staff er mwyn gweithredu gorsaf drosglwyddo a fydd yn gallu ailgylchu rhagor o ddeunydd, er mwyn iddo benderfynu arno, a darparu hysbysiadau o newid a/neu golli swyddi fel y'u hystyrir yn briodol gan y Pwyllgor Personél (bydd Amodau a Thelerau Llywodraeth Leol yn berthnasol i unrhyw rolau newydd).
3. Nodi gofynion cyfalaf a chymeradwyo dyrannu £5.55m o raglen gyfalaf y cyngor, gan gynnwys cronfa wrth gefn;
4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gofal Strydoedd i amrywio'r hawlen amgylcheddol yn unol â'r newid i'r gwasanaeth;
5. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gofal Strydoedd a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i ymgymryd ag ymarfer caffael ar gyfer contract trin gwastraff gweddilliol am hyd at 5 mlynedd, ac i wneud unrhyw drefniadau sy'n briodol er mwyn hwyluso'r ymarfer caffael hwn a dyfarnu'r contract i'r cynigiwr sy'n sgorio uchaf;
6. Bydd y Pennaeth Gofal Strydoedd yn ymchwilio i ddichonoldeb a manteision ail-leoli cerbydlu casglu gwastraff ac ailgylchu'r cyngor i'r Orsaf Drosglwyddo, ac yn adrodd yn briodol wrth yr Aelodau am ganfyddiadau er mwyn cael penderfyniad pellach.

### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar ddyfodol y CADY, mewn perthynas â'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol mewn egwyddor, ac sy'n destun ymgynghoriad. Bydd y cyfeiriad teithio ar gyfer gwastraff gweddilliol yn parhau ar duedd am i lawr wrth i aildddefnyddio ac ailgylchu etc. barhau i gynyddu. Ni fydd y trefniadau gwasanaeth presennol felly'n cyd-fynd â'r cyd-destun rheoli gwastraff sy'n datblygu os na wneir newidiadau.

### **Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

### **Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad â staff.

### **3. DIWEDDARU A MONITRO'R GYLLIDEB AR GYFER 2020-21**

Gobeithiwyd y byddai rhagor o gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i'r costau cynyddol a gafwyd yn ystod pandemig COVID-19. Nododd yr aelodau y byddai costau ychwanegol pellach wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio a dod i ben ar draws y wlad.

#### **Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a'r symudiadau o ran arian wrth gefn a gynigir, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.
2. Nodi'r materion gweithredol ac ariannol a ddisgrifir yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.
3. Bydd y cyngor yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a chyfeiriadau, i gyflwyno gwasanaethau yn ystod yr adeg heriol hon.
4. Nodi'r grantiau ychwanegol a dderbyniwyd.
5. Bydd y cyngor yn parhau i geisio arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ganlyniadau COVID-19 sef gwariant uwch, colli incwm, cost gynyddol Cymorth Treth y Cyngor a diffygion o ran casglu trethi, sy'n effeithio'n andwyol ar gyllid a gweithgarwch y cyngor.

#### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Diweddaru Cyllideb y cyngor ar gyfer 2020/21 a hysbysu'r Aelodau o'r risgiau ariannol sy'n codi o COVID-19.

#### **Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

#### 4. **STRATEGAETH PERTHNASOEDD IACH I GREU CYMUNEDAU CRYFACH**

Yn dilyn sylwadau ychwanegol gan y Bwrdd Iechyd, ychwanegwyd argymhelliad arall gan swyddogion yn ystod y cyfarfod, a chytunodd yr Aelodau arno (penderfyniad 2 isod):

##### **Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach' - ymateb ar y cyd y cyngor a'r Bwrdd Iechyd i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd i gytuno ar unrhyw fân newidiadau terfynol i'r strategaeth cyn ei chyhoeddi.

##### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Cymeradwyo'r strategaeth yn ffurfiol a sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan adran 5 (1) Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

##### **Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

##### **Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

#### 5. **GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS - TRAETH ABERAFAN**

##### **Penderfyniadau:**

1. Bydd y cyngor yn ymgymryd ag ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar gynnig i estyn y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn Nhraeth Aberafan.

2. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, cyflwynir adroddiad pellach a fydd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a'r argymhellion, er mwyn penderfynu arno

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod y Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n gweithredu'n dymhorol yn Nhraeth Aberafan ar hyn o bryd yn cael eu hadolygu'n amserol fel y gellir eu hestyn os oes angen.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

6. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELOD - GWERTHUSIAD A PHROTOCOL AR GYFER AIL-LANSIO**

**Penderfyniad:**

Cytuno ar feini prawf diwygiedig Cronfa Gymunedol yr Aelodau, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Hwyluso llywodraethu a chyflwyno Cronfa'r Aelodau yn ei ail dymor

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2011 - 2026**

**Penderfyniadau:**

Argymhell yr argymhellion canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1. Cytuno ar yr ymatebion a'r argymhellion a wnaed i'r sylwadau a dderbyniwyd ac fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.
2. Cytuno ar yr Adroddiad Adolygu terfynol fel y nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau y cydymffurfir ag Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015; a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) 2020, ac i sicrhau y rhoddir y gweithdrefnau mabwysiadu a chyhoeddi ar waith fel y'u nodir yn yr adroddiad.

### **Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Rhoddir y penderfyniadau ar waith ar ôl i'r cyngor eu cymeradwyo.

### **Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## **8. GORCHMYNION TRAFFIG - LLANSAWEL**

### **Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiadau i Orchymyn (Gwahardd Aros, Llwytho neu Ddadlwytho ar Unrhyw Adeg) (Arhosiad cyfyngedig) a (Deiliaid Hawlen i Breswylwyr) 2020 (fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) ar gyfer Ormond Street, Ymysmaerdy Road ac Old Road, Llansawel, Castell-nedd, a rhoi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar waith fel y'i hysbysebwyd.

### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd a darparu cynllun parcio i breswylwyr yn unig yn unol â pholisi parcio i breswylwyr presennol y cyngor.

### **Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

### **Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

## 9. **GORCHMYNION TRAFFIG - PORT TALBOT**

### **Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu Gorchymyn Gwahardd Aros, 8am i 6pm 2020 ar gyfer Evelyn Terrace a Manor Street, Port Talbot, 2020 (fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r cynigion ar waith ar y safle fel y'u hysbysebwyd.

### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

### **Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

### **Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

## 10. **GORCHMYNION TRAFFIG - CYNCOED ROAD A BERTHA ROAD, MARGAM**

### **Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i hysbysebu Gorchymyn Gwahardd Aros, dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm, 2020 ar gyfer Cyncoed Road a Bertha Road, Margam, (fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd) ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r cynigion ar waith ar y safle fel y'u hysbysebwyd.

### **Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal parcio diwahaniaeth er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

11. **GORCHMYNION TRAFFIG - Y FFORDD GERLLAW BEECHWOOD ROAD, MARGAM**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad i'r Gorchymyn (Arbrofol er mwyn Gwahardd Gyrru) 2019 ar gyfer y ffordd ger 63 a 65 Beechwood Road, Margam, Port Talbot, a gwneud y Gorchymyn yn Arbrofol yn barhaol fel yr hysbysebwyd, a hysbysu'r gwrthwynebydd yn briodol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Atal mynediad i draffig cerbydau er mwyn diogelu plant ysgol er diogelwch y ffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

12. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, wahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 13, 14 a 15 o Ran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.



13. **Y GANOLFAN ADFER DEUNYDDIAU AC YNNI, TWYNI CRYMLYN  
(YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFFAU 13, 14 A 15)**

Gyda chytundeb y Cadeirydd, symudwyd yr eitem hon o sesiwn breifat i un gyhoeddus (ac eithrio atodiadau B ac C a oedd yn parhau'n eithriedig dan baragraffau 13, 14 a 15). Gweler Cofnod Rhif 2 uchod.

14. **SYSTEM MEDDALWEDD RHEOLI PERFFORMIAD A RHEOLI  
RISGIAU (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Eithrio Rheol 2 y Rheolau Gweithdrefnau Contractau, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol i ymrwmo i gontract dwy flynedd gyda'r cyflenwr a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, ac yn unol â'r telerau a nodwyd hefyd yn yr adroddiad preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau parhad busnes, cynnal momentwm y cynnydd da a wnaed eisoes a datblygu trefniadau rheoli risgiau a pherfformiad y cyngor ymhellach.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**